Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.07.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Y cod cynnydd drafft** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Mae pum egwyddor cynnydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr addysg wrth iddynt weithio i ddylunio cwricwlwm teilwredig ar gyfer eu hysgol neu leoliad. Dylent helpu hyrwyddo ehangder a dyfnder dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn helpu pwysleisio egwyddorion pwysig, fel y ffaith ei bod yn bwysig i ddysgwyr allu cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau mwy anghyfarwydd a heriol dros gyfnod.<br><br>Mewn llawer o achosion, mae'r egwyddorion trosfwaol yn glir a dylent helpu darparu fframwaith cyson y gall arweinwyr ac ymarferwyr ei ddefnyddio i ddatblygu eu cwricwla. Dylent helpu hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd ar draws meysydd dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae termau yn amwys a byddant yn elwa ar gael eu symleiddio neu ddangos enghreifftiau ohonynt. Yn ein hymateb, rydym wedi awgrymu gwelliannau ar gyfer egluro pob Maes dysgu a phrofiad. |

Math o ymatebwr (dewiswch un o'r canlynol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plentyn neu unigolyn ifanc | ☐ | Cyflogwr/cynrychiolydd busnes | ☐ |
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Corff proffesiynol/grŵp â buddiant | ☐ |
| Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli ysgol | ☐ | Sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu fenter gydweithredol, sefydliad crefyddol, nid-er-elw) | ☐ |
| Ymarferydd ysgol brif ffrwd (pennaeth, athro, cynorthwyydd addysgu ac ati) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (staff UCD, staff ysgol annibynnol, darparwr arall ac ati) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Addysg uwch (gan gynnwys prifysgolion / sefydliadau academaidd) | ☐ | Addysg bellach | ☐ |
| Gwleidydd (Aelod o'r Senedd, cynghorydd sir, AS ac ati) | ☐ | Grŵp ymatebwyr arall nad yw wedi'i restru uchod, rhowch fanylion: Estyn | ✓ |
| Lobïwr | ☐ | Mae'n well gennyf beidio â dweud | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran ysgol, lleoliad neu sefydliad?

| | |
|---|---|
| ☐ | Fel unigolyn |
| ✓ | Ar ran ysgol / lleoliad / sefydliad |

**Cwestiwn 1** – Pa mor ddefnyddiol yw'r egwyddorion cynnydd ar gyfer ymarferwyr addysg wrth ddylunio a datblygu eu cwricwlwm? A sut gellir eu gwella?

| |
|---|
| Mae'r pum egwyddor cynnydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr addysg wrth iddynt weithio i ddylunio cwricwlwm teilwredig ar gyfer eu hysgol neu leoliad. Dylent helpu hyrwyddo ehangder a dyfnder y dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn helpu pwysleisio egwyddorion pwysig, fel y ffaith ei bod yn bwysig i ddysgwyr allu cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau mwy anghyfarwydd a heriol dros gyfnod. Os ydynt am fod yn gwbl effeithiol, bydd angen amser a chymorth ar arweinwyr ac ymarferwyr i ddeall ac ymgorffori'r egwyddorion hyn yn llawn yn eu cwricwla.<br><br>Mewn ychydig o achosion, gellid eu gwella ag eglurder, fel yr amlinellir yn ein hymateb i'r cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad. |

**Cwestiwn 2** – O ran yr egwyddorion cynnydd trosfwaol, a yw'r rhain yn glir a chywir o ran amlinellu beth mae'n ei olygu i ddysgwyr wneud cynnydd yn eu dysgu, 3-16 ar draws y cwricwlwm cyfan?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mewn llawer o achosion, mae'r egwyddorion trosfwaol yn glir a dylent helpu darparu fframwaith cyson y gall arweinwyr ac ymarferwyr ei ddefnyddio i ddatblygu eu cwricwla. Dylent helpu hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd ar draws meysydd dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae termau yn amwys a byddant yn elwa ar gael eu symleiddio neu ddangos enghreifftiau ohonynt. Er enghraifft, mewn 'Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau', mae'r term 'sgiliau deallusol' yn aneglur. |

**Cwestiwn 3** – O ran yr egwyddorion cynnydd sy'n benodol i bob Maes dysgu a phrofiad, a yw'r rhain yn glir a chywir o ran amlinellu beth sy'n unigryw ac yn wahanol am gynnydd, 3-16 ym mhob Maes?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno bod yr egwyddorion cynnydd sy'n benodol i bob maes dysgu a phrofiad, yn glir a chywir o ran amlinellu beth sy'n unigryw ac yn wahanol am gynnydd mewn llawer o'r meysydd. Mewn ychydig o feysydd, mae yna rai adrannau lle mae angen egluro'r arweiniad ymhellach.

Yn y Maes Celfyddydau Mynegiannol, dylai natur unigoledig y canllawiau, a'r enghreifftiau a ddarperir, fod yn fuddiol i arweinwyr ac athrawon wrth iddynt ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer cydweithwyr. Dylai cyfeirio at yr egwyddorion wrth lunio eu cwricwlwm helpu ysgolion a lleoliadau sicrhau eu bod yn glynu at egwyddorion cynnydd.

Yn y Maes Iechyd a Lles, mae pwyslais addas ar ddatblygu gwybodaeth dros gyfnod trwy ailedrych ar gysyniadau, a thrwy adeiladu ar brofiadau go iawn i ddatblygu medrau a dealltwriaeth dysgwyr. Gall hyn eu helpu i wneud dewisiadau priodol mewn gwahanol feysydd o'u bywydau. Yn bwysig, mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn ystyried datblygiad cyffredinol dysgwyr: yn gorfforol, yn emosiynol, yn seicolegol ac yn gymdeithasol, dros gyfnod. Mae'r egwyddorion cynnydd yn cysylltu'n dda â'r pedwar diben.

Ym Maes y Dyniaethau, mae yna ychydig o adrannau lle mae angen egluro canllawiau ymhellach:

- Yn yr adran 'Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth', mae angen esbonio'r term 'gwybodaeth osodiadol'. Yn ychwanegol, mae angen canllawiau ac/neu eglurhad ar beth yw 'cysyniad gwaelodol'.
- Yn yr adran ynghylch 'Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau', mae'r ymadrodd 'yn ymwneud â chynrychiolaeth' yn anodd i'w ddehongli.

Mae'r egwyddorion cynnydd ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn pwysleisio'n dda bwysigrwydd cynnydd dysgwyr yn y Maes hwn, yn ogystal â chynnydd mewn llythrennedd disgyblaethol yn y Meysydd dysgu a phrofiad eraill. Rydym wedi nodi agweddau ble gellid cryfhau'r canllawiau hyn:

- Gellid ymestyn yr egwyddorion cynnydd ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ymhellach trwy gynnwys gwybodaeth am blant ifanc yn caffael iaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae caffael iaith yn dilyn yr un dilyniant, er bod y cyflymder y mae'n gwneud hynny yn gallu amrywio'n sylweddol (Law et al, 2017[1]). Efallai na fydd plant sy'n dysgu ieithoedd heblaw Saesneg, fel dysgwyr dwyieithog neu ddysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, yn dangos yr un patrwm

[1] Law, J., Charlton, J., Dockrell, J., Gascoigne, M., McKean, C. and Theakston, A. (2017). *Early Language Development: Needs, provision, and intervention for preschool children from socio-economically disadvantaged backgrounds, A Report for the Education Endowment Foundation October 2017*. Education Endowment Foundation: England.

datblygiad â siaradwyr Saesneg iaith gyntaf, o reidrwydd. Ar yr amod nad oes ganddynt anawsterau iaith[2], yn nodweddiadol, mae plant yn caffael y ramadeg ar gyfer prif gystrawennau eu mamiaith, ni waeth beth yw'r iaith, erbyn iddynt fod yn bump oed (Kuhl, 2004[3]; Messer, 2006[4]).

- Mae'n bwysig cynnwys prif elfennau datblygiad iaith lafar plant yn egwyddorion cynnydd, yn enwedig gan mai dyma'r sylfaen ar gyfer datblygu medrau iaith a llythrennedd eraill. Mae iaith lafar yn rhagflaenu ac yn ategu medrau cyn-llythrennedd, yn ogystal â darllen diweddarach (ac yn enwedig darllen a deall) ac ysgrifennu (Law et al, 2017, tud.3). Mae rôl oedolion mewn modelu confensiynau iaith, a sgaffaldio dysgu iaith plant i gefnogi eu cynnydd mewn cyfathrebu, yn benodol i'r Maes dysgu a phrofiad hwn. Hefyd, byddai cryfhau'r agwedd hon ar yr egwyddorion cynnydd ar gyfer y Maes yn gydnaws â 'Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu' (Llywodraeth Cymru, 2020).
- Ar hyn o bryd, nid yw egwyddorion cynnydd yn gwneud yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar ddatblygu iaith mor eglur ag y dylent, ac felly rhaid ffurfio'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth a amlinellir yn natganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd'.
- At ei gilydd, mae'r testun yn rhoi darlun clir o'r cynnydd ar gyfer dysgwr ar ben uwch y continwwm, a'r deilliannau bwriadedig ar gyfer dysgwyr mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. O ystyried yr esboniad fod y disgrifiadau o ddysgu yn y Maes penodol hwn yn cynnwys lefel uwch o fanylder yn ystod camau cynnar dysgu nag a welir mewn Meysydd dysgu a phrofiad eraill, ceir arwydd cymharol gymedrol o'r cynnydd yn y camau cynnar, yn yr egwyddorion hyn.
- Mae'r canllawiau yn nodi 'Mae'r disgrifiadau o ddysgu yn y Maes hwn yn cynnwys lefel uwch o fanylder yn ystod camau cynnar dysgu na'r hyn a geir mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y sgiliau llythrennedd cynnar hyn yn cynnig sylfaen ar gyfer dysgu effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.' Nid yw hyn yn gyffredinol wir ar draws Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol. Er enghraifft, nid yw'r disgrifiadau o ddysgu yn ystod y camau cynnar ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn cynnwys lefel uchel o fanylder.
- Yn yr adran 'Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd', mae'r canllawiau'n datgan, 'Maen nhw'n gwneud cynnydd ar y cyd mewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn y Maes hwn ac mewn llythrennedd disgyblaethol yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill'. Mae angen i ganllawiau fod yn glir am beth mae 'cynnydd ar y cyd' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn.
- O dan yr adran 'Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd', mae'n nodi y gallai dysgwyr fod ar wahanol fannau cynnydd mewn gwahanol ieithoedd. Byddai'n fuddiol pe bai cynnydd o fewn ieithoedd hefyd yn cydnabod y gallai dysgwr wneud cynnydd ar wahanol gyflymdra a bod ar wahanol fannau o ran ei iaith fynegiannol a derbyngar.

Yn y Maes dysgu Mathemateg a Rhifedd, mae'r egwyddorion yn ddefnyddiol ac yn dangos bod angen datblygu dyfnder ac ehangder gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

[2] Children often move in and out language difficulties between four and seven years (McKean et al., 2017; Zubrick et al., 2015). Law et al (2017, p.19) note, 'this instability is, in part, due to children making small changes which place them just above or just below the threshold where language difficulties are defined.'

[3] Kuhl, P.K. (2004). 'Early language acquisition: Cracking the speech code', *Nature Reviews Neuroscience*, 5(11) 831-843.

[4] Messer, D. (2006). 'Current perspectives on language acquisition', in J.S. Peccei (ed.), *Child language: A Resource Book for Students*. London: Routledge.

Byddai'n fuddiol i'r canllawiau fod yn glir na ddylid addysgu'r hyfedreddau cyd-ddibynnol ar wahân, ac nad oes angen i ymarferwyr gynllunio ar gyfer pob un o'r hyfedreddau ym mhob gwers, na'u haddysgu.

Yn gyffredinol, bydd yr egwyddorion cynnydd ar gyfer y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ddefnyddiol i gynorthwyo athrawon i ddatblygu cwricwla a phrofiadau dysgu sy'n unigryw i'r maes hwn o'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o egwyddorion yn esbonio sut y dylid eu datblygu a sut gall disgyblion wneud cynnydd, a'i arddangos, er enghraifft wrth symud o'r diriaethol i'r haniaethol neu ymgymryd â chyfyng-gyngor moesegol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae angen esboniad neu enghreifftiau clir:

- Mae'r adran 'Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau' yn helpu esbonio sut mae angen i ddysgwyr gymhwyso medrau a gwybodaeth â soffistigeiddrwydd cynyddol. Gallai fod yn fuddiol cyfeirio at 'soffistigeiddrwydd cynyddol' o ran y modd y mae dysgwyr yn cymhwyso eu dysgu blaenorol o fewn y Maes hwn pan fyddant yn 'archwilio ac yn ymchwilio i broblemau ac yn ffurfio atebion creadigol canlyniadol.'
- Nid yw'r disgrifiad 'Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr' yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar beth sy'n unigryw am y Maes hwn. Hefyd, mae'r frawddeg gyntaf yn aneglur. Mae angen iddi esbonio'n gliriach y bydd dull 'treialu a gwella' yn galluogi dysgwyr i gymhwyso medrau, datblygu gwydnwch wrth iddynt ddeall budd methu yn y maes hwn i ddarganfod ffyrdd newydd o wneud pethau. Yn ychwanegol, mae Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn annog rhyngweithio rhwng cyfoedion, yn ogystal â darganfyddiadau unigol sy'n gallu cynyddu effeithiolrwydd dysgwyr.

**Cwestiwn 4** – Pa mor dda y mae'r egwyddorion trosfwaol a'r egwyddorion sy'n benodol i bob Maes dysgu a phrofiad yn ffurfio cyfanwaith clir a chydlynus? A yw'r egwyddorion penodol yn gyson â'r rhai trosfwaol?

Yn y Celfyddydau Mynegiannol, mae'r egwyddorion cynnydd trosfwaol ar gyfer pob Maes dysgu a phrofiad yn darparu cyfanwaith effeithiol a chydlynus. Maent wedi eu hamlinellu'n glir ar gyfer ymarferwyr. Mae'r canllawiau'n ymarferol ac yn pwysleisio pwysigrwydd cysondeb, drwyddi draw. Mae'r enghreifftiau sydd wedi eu cynnwys yn ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr. Er enghraifft, ceir cyfeiriad defnyddiol at gynnydd mewn elfennau o ddawns sy'n dangos yn llwyddiannus y soffistigeiddrwydd cynyddol o ran defnyddio a chymhwyso medrau.

Yn y Dyniaethau ac yn y Maes Iechyd a Lles, mae'r egwyddorion trosfwaol a'r egwyddorion maes penodol yn gydlynus ac yn gyson â'i gilydd. Yn bwysig, yn y Maes Iechyd a Lles, mae'r naill a'r llall yn annog twf dros gyfnod ac ailedrych ar gysyniadau a syniadau i ddatblygu gwybodaeth a soffistigeiddrwydd dyfnach o ran meddwl a dealltwriaeth.

Yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, mae egwyddor drosfwaol ‘Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau’ yn cydnabod ystod o fedrau y mae angen i ddysgwyr eu datblygu yn ystod camau cynnar dysgu, yn cynnwys ffocws ar ddatblygu medrau echddygol bras a manwl, medrau cyfathrebu a chymdeithasol.  O ystyried pwysigrwydd camau cynnar caffael iaith i gynnydd dysgwyr ar draws y cwricwlwm, ni roddir sylw digonol i hyn o dan egwyddor cynnydd mewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.  Yn yr un modd, mae’r paragraff sy’n nodi bod cynnydd yn gallu cael ei weld wrth ‘gynhyrchu iaith’, yn disgrifio medrau mwy datblygedig yn unig, yn hytrach nag egluro cynhyrchu iaith yn gynnar, yn ogystal â’r medrau y mae dysgwyr yn eu datblygu, wrth iddynt ‘ddod yn fwy medrus’.

Yn y Maes dysgu Mathemateg a Rhifedd, mae’r hyfedreddau yn cysylltu’n dda â’r egwyddorion trosfwaol a amlinellir yn y Cod.

Yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae’r egwyddorion trosfwaol a phenodol yn gyson ac yn glir mewn llawer o achosion.  Er enghraifft, yn yr adran ‘Creu cysylltiadau a throsglwyddo’r dysgu i gyd-destunau newydd’, mae’r egwyddorion gwyddoniaeth a thechnoleg yn ehangu’n dda ar y canllawiau trosfwaol ac yn rhoi mwy o eglurder a ffocws iddynt ar gyfer y Maes dysgu penodol hwn.

Yn yr adran ‘Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd dysgu a phrofiad’, mae’r disgrifiad yn canolbwyntio ar sut gellir cryfhau dysgu disgyblaethol trwy greu cysylltiadau ar draws y Maes hwn, ac yn defnyddio cymhwyso medrau ymchwiliol fel enghraifft.  Byddai’n fuddiol bod yn glir nad medrau yn unig ond y wybodaeth a dealltwriaeth wyddonol sy’n cael eu datblygu o fewn un maes gwyddoniaeth a thechnoleg ddylai gael eu cymhwyso ar draws y Maes dysgu a phrofiad.

**Cwestiwn 5** – Pa gymorth pellach y gellid ei ddarparu i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu hymagwedd at gynnydd ac asesu fel rhan annatod o’u cwricwlwm, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru?

O ran cefnogi asesu a chynnydd, mae’r canllawiau ‘Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu’ yn amlinellu egwyddorion ar gyfer trefniadau asesu.  Fodd bynnag, mewn nifer o leoedd, mae angen mwy o fanylion ac eglurhad ar ysgolion a lleoliadau:

- Mae’r canllawiau’n tynnu sylw at bwysigrwydd ‘datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd o fewn ysgolion, ac ar eu traws’ ac yn nodi bod ‘deialog at y diben hwn yn darparu cyfleoedd i arweinwyr ac ymarferwyr rannu a myfyrio ar effaith eu cwricwlwm ysgol.’  Mae angen rhagor o ganllawiau ar ysgolion a lleoliadau i amlinellu sut gallant fwrw ymlaen â hyn, pha ofynion statudol, os o gwbl, y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod arnynt.

- Mae angen i Lywodraeth Cymru rannu canllawiau am unrhyw drefniadau asesu penodol y maent yn bwriadu eu gwneud a allai effeithio ar y maes hwn, er enghraifft os bydd asesiad gwaelodlin statudol.

Er y gall y canllawiau hyn gynorthwyo ysgolion a lleoliadau i feithrin cynnydd mewn dysgu, nid yw'n rhoi sicrwydd y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd addas. Mae addysgeg effeithiol yn hollbwysig, a rhaid i gynlluniau fod yn ddigon hyblyg i addasu yn unol ag anghenion dysgwyr. Mae cymorth pellach a dysgu proffesiynol ar addysgeg effeithiol yn parhau i fod yn hanfodol bwysig.

Mae angen canllawiau clir ar ysgolion a lleoliadau am ffyrdd effeithiol o olrhain cynnydd dysgwyr. Dylai olrhain dysgu yn effeithiol helpu arweinwyr ac ymarferwyr i fonitro cynnydd dysgwyr. Bydd hyn yn helpu sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol am y camau nesaf ar gyfer dysgwyr ac yn gallu lywio addysgu hefyd. Bydd angen cymorth ychwanegol ar ysgolion a lleoliadau i ddatblygu'r systemau hyn.

Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir am y gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae ysgolion a lleoliadau yn monitro cynnydd dysgwyr a systemau atebolrwydd, er mwyn i arweinwyr ac athrawon allu canolbwyntio eu hymdrechion ar gynnydd dysgwyr.

Bydd angen i ddysgu proffesiynol a chanllawiau helpu ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth o sut olwg sydd ar gynnydd effeithiol mewn mathemateg, a dangos sut olwg sydd ar yr hyfedreddau ar wahanol gamau, ac mewn gwahanol ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Mae'r cyfeiriad at gysyniadau o fewn disgyblaethau penodol yn fan cychwyn defnyddiol. Byddai ymarferwyr yn elwa ar gymorth i ddeall y continwwm cynnydd o fewn cysyniadau disgyblaethol; er enghraifft, yn y Dyniaethau, cysyniadau fel imperialaeth, gwladychiaeth, gofod a amlinellwyd gan y Gymdeithas Ddaearyddol a'r Gymdeithas Hanesyddol.

**Cwestiwn 6** – Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Cod Cynnydd Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn eu cael a Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n credu a allai fod? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r egwyddor fod cyd-destun ieithyddol pob ysgol yn cael ei ystyried wrth edrych ar y disgrifiadau o ddysgu ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, er enghraifft ar gyfer Cymraeg / Saesneg, ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau / ysgolion / ffrydiau cyfrwng Saesneg, ac ar gyfer ieithoedd rhyngwladol.

Yn gyffredinol, pan mae'r ffocws yn yr egwyddorion cynnydd ar 'wahanol ieithoedd / lluosieithrwydd', byddai'n fuddiol cynnwys y Gymraeg yn benodol.

**Cwestiwn 7 –** Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid Cod Cynnydd arfaethedig Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Mae angen i'r datganiadau ddatgan pwysigrwydd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol er mwyn rhoi statws cyfartal i bob iaith. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ac yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae angen cyswllt cliriach rhwng Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr o fewn y sail resymegol ar gyfer y Cod Cynnydd hwn.

Mae'n hanfodol fod adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ar draws y gwahanol Feysydd dysgu a phrofiad ar gael yn ddwyieithog, a bod y fersiynau Cymraeg yn dod ar gael ar yr un pryd ag unrhyw adnoddau cyfrwng Saesneg. Dylid datblygu unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau / adnoddau peilot i ddathlu a hyrwyddo'r cwricwlwm ac egwyddorion cynnydd gyda bwriad o sicrhau cydraddoldeb ieithyddol.

**Cwestiwn 8** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.

| |
|---|
| Yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae'n datgan, 'Mae cynnydd wrth ddysgu yn broses o gynyddu soffistigeiddrwydd, yn hytrach nag ymdrin â chorff mwy o gynnwys'.  Er ein bod yn deall yr egwyddor hon, mae angen i ganllawiau fod yn glir nad yw hyn yn eirioli symud oddi wrth bwysigrwydd cynyddu gwybodaeth wyddonol.  Mae angen i ganllawiau fod yn glir fod manylder ac ehangder gwybodaeth, ochr yn ochr â medrau cysylltiedig, yn galluogi i gysylltiadau gael eu gwneud, eu hatgyfnerthu a bod modd adeiladu arnynt. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o fod ar gael i'r cyhoedd, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.  Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐